

Rhagarweiniad

1. Aelodaeth

1.1 Darperir ar gyfer aelodaeth Cyngor yr Undeb (cyfeirir ato hefyd fel y "Cyngor" neu'r "Senedd") dan gymal 30 o'r Cyfansoddiad.

1.2 Mae'r is-ddeddf hon yn diffinio etholiad, detholiad ac aelodaeth Cyngor y Myfyrwyr.

Ethol Cynrychiolwyr

2. Cynrychiolwyr Myfyrwyr

2.1 Bydd Cyngor yr Undeb yn cynnwys y cynrychiolwyr myfyrwyr canlynol:

- Swyddog llawn amser
- Swyddogion gwirfoddol (gan gynnwys Cynrychiolwyr Cyfadrannau)
- 2 rôl i gynrychioli Pwyllgor Gwaith UMCA
- 5 rôl i gynrychioli Clybiau Chwaraeon cysylltiedig
- 5 rôl i gynrychioli Cymdeithasau cysylltiedig

Cyffredinol

3. Terfynu aelodaeth o'r Cyngor

3.1 Bydd cynrychiolydd myfyrwyr yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor os yw'n:

- ymddiswyddo fel cynrychiolydd;
- yn cael ei ddad-ddewis fel cynrychiolydd gan y mudiad â'i dewisodd i fod yn gynrychiolydd;
- yn peidio â bod yn aelod o'r mudiad â'i dewisodd i fod yn gynrychiolydd;
- yn peidio â bod yn Aelod o UMABer.

3.2 Bydd unigolyn yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor ar ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd y detholwyd neu yr etholwyd hwy i wasanaethu.

4. Cyfyngiadau ar ddetholiad ac etholiad

4.1 Ni chaiff neb ei ddethol na'i ethol yn aelod o Gyngor yr Undeb os ydynt yn weithiwr llawn amser yn UMABer (ac eithrio Swyddog Ymddiriedolwr), neu

4.2 Lle mae rhywun sydd eisoes yn aelod o Gyngor yr Undeb yn cael ei ethol neu ei ddethol i unrhyw swydd arall a fyddai'n ei wneud yn gymwys i fod yn aelod o Gyngor yr Undeb, caiff yr etholiad neu'r detholiad i'r ail swydd ei ddiystyru at ddibenion pleidleisio.

4.3 Mewn achos lle caiff unigolyn sy'n Aelod o'r Cyngor ei benodi i swydd lawn-amser yn UMABer (ac eithrio yn rhinwedd cael ei ethol yn Swyddog Ymddiriedolwr) bydd yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor.

4.4 Yn yr adran hon, golyga cyfeiriad at swydd unrhyw swydd o fewn UMABer neu dan reolaeth UMABer, ac mae'n cynnwys swyddog, ond nid yw'n cynnwys swydd sy'n ddibynnol ar gytundeb cyflogaeth.

5. Dehongliad

5.1 Yn yr Atodlen hon:

Ystyr "Aelod" fydd "Aelod o UMPA" dan gymal 16 o'r Cyfansoddiad,

Golyga "Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol" gyfarfod cyffredinol blynyddol o UMABer, a gynhelir yn unol â chymal 28 o'r Cyfansoddiad,

Ystyr "Aelod o'r Cyngor" yw yn aelod o'r Cyngor.